

Y Casglwr

Rhif 84 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn Haf 2005

Llew Llwyfo a Llewelyn Parri—Llên ladrad?

O'r holl nofelau a ysgrifennodd Llew Llwyfo, un yn unig aeth i fwy nag un argraffiad. Wedi ennill y gystadleuaeth yn Eisteddfod Cymrodorion Dirwestol Merthyr ym 1854 fe aeth 'Llewelyn Parri neu Y meddwyn diwygiedig' yn gosod allan echryslonrwydd bywyd y meddwyn a bendithion llwyrwrthodiad' i o leiaf bum argraffiad. Erbyn 1854 roedd y frwydr dros ddirwest, ac yn enwedig rhwng 'cymedroldeb' a 'llwyr ymwrthodiad, ar ei chryfaf. Profodd beirniad cystadleuaeth Merthyr, Eben Fardd, wewyr meddwl ar y pwnc, fel y tystia ei ddyddiadur. Do, fe gloffodd 'Eban y lleban llwyd' droeon yn ei fywyd. Ardystiodd sawl llw o ddirwest, a'u torri yn rhaes jibiders. Cyhoeddwyd y nofel fuddugol ym 1855 gan Rees Lewis, Merthyr.

Bu hoffter o godi ei fys bach yn faen tramgwydd i'r Llew, hefyd. Dadleuai dros ddirwest yn ifanc mewn cyfarfodydd yng nghapel y Tabernacl, Bangor, cefnogodd ddirwest mewn sawl nofel arall, a chyfansoddodd hyd yn oed benillion yn pleidio dirwest pan oedd yn hen gaeth i'r ddiod. Ond fel ag y cyfaddefodd ym 1860, 'Canu am anfarwoldeb mae Golyddan, canu am bres fyddaf fi.'

Doedd cyhuddo rhywun o lôn ladrad yng Nghymru Oes Fictoria ddim yn ddigwyddiad unigryw. Gorfodwyd y Llew i'w amddiffyn ei hun rhag cyhuddiad o fanteisio ar waith Tennyson, *Idylls of the King* yn y 1860'au. Ac nid y Llew oedd yr unig un. Brithir papurau newydd y cyfnod gan gyhuddiadau o'r fath.

Cofnododd T. Gwynn Jones, oedd yn newyddiadura yng Nghaernarfon yn ystod blynyddoedd olaf y Llew, fel yr arferai ddweud 'mai'r unig beth oedd eisiau i ennill coron yr Eisteddfod Genedlaethol oedd medru cyfieithu Saesneg yn weddol.' Ymateb Gwynn Jones yn syml oedd, 'Felly, dylai dyfod o hyd i ffynhonellau Llew Llwyfo fod yn waith diddorol.' (Llennyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, tud 30.)

Swmbwl yng nghnawd sefydliad llenyddol a chrefyddol ei gyfnod oedd 'Y Punch Cymraeg' a gyhoeddwyd yng Nghaerdybi o 1858-61 ac yna am gyfnod byr yn Lerpwl ym 1864. Ffrewyllid 'mawrion' y dydd yn ddirugaredd a hynny mewn gair a chartŵn. Ychydig o gopïau a oroesodd a champ yw cael rhediad cyflawn. Mae'n gylchgrawn gwerth ei bwysau mewn aur coeth lawer. Er bod cyfeiriadau gogleisiol wedi ymddangos am Lew Llwyfo ym 1858 a 1859, dechreuodd Mr Punch ei golbio ef (ac eraill) o ddirif efo'i bastwn dan bennawd 'Llênladradd' ym 1860.

Rhodddwyd i Ieuan Morganwg, yn Abergysfeni, £10 am draethawd a gyfieithwyd yn llythrennol o'r "Domestic Economy" Wm Cobbett; i Lew Llwyfo, yn Merthyr, £12, am ffughanes, Llewelyn Parri, a gyfieithwyd o "The Senator's Son"

Mrs M.V. Fuller, America ac i Ifor Cwm Gwys, yn Merthyr, wobwr am Bennillion "Yr Iesu a Wylodd" a gymerodd o tudalen 244 "Gweithiau Gwilym Hiraethog". Cafodd 'Ceiriog' wobwr am benillion rhagorol o'i waith ei hun, ond attaliwyd oddi wrtho am benillion gwell.'

(Y Punch Cymraeg, Mawrth 3, 1860.)

Gyda'i fôst fawredd arferol honnai'r Llew ddeng mlynedd ar hugain wedi gwobrwyo ei nofel gyntaf mai hi 'hyd y dydd hwn ydyw'r unig Novel wirioneddol, - yr unig Ffughanes a ysgrifenydd yn yr iaith Gymraeg yn unol a deddfau a rheolau mwyaf pendant a manwl nofelyddiaeth. (Llewelyn Parri, tud iv, pumed argraffiad?)

Ond nofel pwy oedd Llewelyn Parri yn ei hanfod?

Ganwyd Metta Victoria Fuller ym 1831 ger Erie, Pennsylvania, yn drydydd plentyn i Adjonah Fuller a Lucy (Williams.) Symudodd y teulu i Wooster, Ohio ym 1839. Bum mlynedd wedyn cyhoeddwyd ei gwaith am y tro cyntaf. Priododd ym 1856 a symud gyda'i theulu i fyw i Ffrog Newydd ym 1858. Yn ystod ei hoes cafodd yrfa lenyddol lewyrchus dan o leiaf 13 o wahanol enwau. Meddai ar y ddawn o newid genre i ymateb i'r hyn oedd yn boblogaidd ar y pryd. Rhoddodd sylw i'r ddirwest a chaethwasiaeth yn ei gweithiau cynnar. Ystyrir mai ei nofel 'The Dead Letter' 1864 (sydd yn dal mewn print) oedd y nofel dditectif

gyntaf. Ymddengys hefyd mai hi oedd yr awdures gyntaf i roddi pob un oedd dan amheuaeth mewn achos o lofruddiaeth mewn un ystafell gyda'i gilydd. Bu farw yn awdures lwyddiannus a chyfoethog ym 1885.

Cyhoeddwyd ei thrydedd nofel, *The Senator's Son; or: The Maine Law. A Last Refuge* yn Cleveland ym 1851. Aeth i ail argraffiad ym 1853 cyn mynd ymlaen i wyth argraffiad arall. Gwerthwyd 30,000 copi o'r nofel yn Lloegr. Felly doedd hi'n drafferth yn y byd i'r Llew gael ei baflau ar gopi ohoni mewn da bryd cyn Eisteddfod Merthyr.

The Senator's Son

Mae Parke, mab bychan y Seneddwr Madison, er nad yw ond pedair oed wedi cael blas ar win. Mae ei dad yn dotio ar ei gampau o flaen ymwelwyr yn eu cartref yn Ffrog Newydd ac Alice ei fam yn gwaredu. Genir merch, Alice iddynt. Mae gyrfa wleidyddol ddisglair yn aros Madison, ond caiff ei drywanu a'i ladd ar ôl bod yn yfed gwin gyda seneddwr o'r De. Wrth gwrs, y mae Parke wedi cael blas ar y gwin, aiff yn wrthdaro rhyngddo a'i fam. Llwydda i goll'r arian a ctiffeddodd gan ei dad wrth yfed a gamblo noswyl cyn y Nadolig. Ond mae Alfred Clyde, un o'i gymdeithion yn rhoi'r arian yn ôl iddo.

(Parhad ar dudalen 22)

